# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, y Rhyl, Dydd Iau, 25 Chwefror 2016 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Martyn Holland, Pat Jones, Pete Prendergast a/ac Arwel Roberts.

Mynychodd yr Aelod Arweiniol Bobby Feeley ar gais y Pwyllgor.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbenigol (AP), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Dewi Owens a/ac Bill Tasker.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Cafodd y cysylltiadau canlynol eu nodi yn eitemau busnes i gael eu hystyried yn y cyfarfod.

Eitem Agenda 5: Datblygiad Ysbyty Cymunedol yn Rhyl – datganodd y Cynghorydd R L Feeley gysylltiad personol. Y Rheswm dros y datganiad oedd bod Cynghorydd Feeley yn Aelod Bwrdd Annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 14 Ionawr, 2016.

Materion yn codi:-

Eitem Rhif 7 – Rhaglen Waith Craffu – mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Cydlynydd Craffu nad oedd unrhyw ystafelloedd cyfarfod ar gael yn y swyddfeydd yn Brighton Road, y Rhyl, ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Hysbyswyd aelodau y byddai’r cyfarfod, ar 15 Ebrill 2016, yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, y Rhyl.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 DATBLYGU YSBYTY CYMUNED YN Y RHYL

Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar eu bwriadau ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol o safbwynt safle Ysbyty Frenhinol Alexandra, Y Rhyl.

Mynychodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chyfarwyddwr Ardal Gwasanaeth Clinigol (Ardal Ganolog) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y cyfarfod er mwyn diweddaru Aelodau ar y cynnydd hyd yn hyn o safbwynt y prosiect uchod. Eglurwyd bod y cyflwyniad wedi ei ddwyn o flaen y cyfarfod gan fod pryderon yn codi nad oedd y prosiect i'w weld yn cael ei roi ar waith. Cynghorodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod:-

- Yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer ysbyty yng ngogledd Sir Ddinbych wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013 ac er yr amser sydd wedi pasio mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cynllun yn parhau;
- y prosiect bellach ar y cam Achos Busnes Amlinellol – mae'r cam hwn yn gofyn am ymgysylltu dwys gyda sefydliadau partner, cyrff trydydd sector, y cyhoedd a staff y Bwrdd Iechyd er mwyn cynllunio cwmpas gwasanaeth a chynlluniau manwl ar gyfer y prosiect;
- O ganlyniad i'r ymgysylltu gyda'r partneriaid uchod mae'r cwmpas gwasanaeth arfaethedig yn cynnwys y meysydd canlynol: gwasanaethau cleifion mewnol, clinigau cleifion allanol, diagnosteg, gwasanaethau therapi, gwasanaethau deintyddol cymunedol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gwasanaethau iechyd rhywiol, Pwynt Mynediad Sengl/ gorsaf weithio integredig a canolfan gymunedol (caffi, trydydd sector ac ystafelloedd cyfarfod);
- talu sylw i'r nifer o wasanaethau a fyddai ar y safle pe byddai'r holl wasanaethau a restrwyd yn y cwmpas gwasanaeth yn cael lle, roedd gwasanaethau unigol wedi eu hasesu er mwyn penderfynu a fyddent yn addas i gael eu cyd-leoli ar yr un safle e.e. CAHMS gyda gwasanaethau plant ychwanegol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ayb. Yn ogystal roedd safleoedd posib wedi eu hasesu er mwyn cadarnhau os oedd modd cyd-leoli nifer o wasanaethau cymunedol yno.
- yn dilyn dau asesiad ar wahân roedd safle Ysbyty Frenhinol Alexandra, y Rhyl wedi ei glustnodi fel yr hoff safle, er gwaetha'r cyfyngiadau cynllunio a'r gost ychwanegol y byddai statws cyfredol yr ysbyty fel adeilad rhestredig yn ei roi ar y Bwrdd Iechyd fel datblygwr;
- un o'r camau gweithredu yng nghynllun gweithredu adfer mesurau arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd fod yn rhaid iddo gyfathrebu'n well gyda'i fudd-ddeiliaid, oedd yn cynnwys trigolion ac awdurdodau lleol. Fel rhan o hyn, yn ystod haf 2015, cynhaliodd 'ymarfer gwrando' er mwyn penderfynu beth ddylai ei flaenoriaethau fod wrth symud ymlaen. Byddai'r blaenoriaethau hyn a chydymffurfio gydag anghenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, yn siapio unrhyw gynigion gwasanaeth yn y dyfodol a fyddai'n cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth symud ymlaen;

- o ganlyniad i’r ymarfer sgwrs gymunedol uchod cytunwyd ar y chwe blaenoriaeth strategol ganlynol:-

  - symud ffocws gwasanaethau iechyd tuag at atal a gwella iechyd, o ganlyniad byddai angen ail-drefnu gwasanaethau cyfredol er mwyn cyflawni’r dyhead hwn;
  - cryfhau gofal sylfaenol a chymunedol, gyda phwyslais arbennig ar fodelau newydd o ofal y tu allan i’r model gofal ysbyty traddodiadol;
  - darparu mwy o ofal integredig drwy ddatblygu partneriaethau cryfach gyda’r sectorau eraill e.e. llywodraeth leol, y trydydd sector, gofalwyr a’r gymuned;
  - darparu gwasanaethau wedi eu lleoli yn yr ysbyty sy’n darparu’r canlyniadau gorau posib i bobl ac sy’n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
  - sicrhau mai’r claf fyddai canolbwynt pob agwedd o waith y Bwrdd; a
  - datblygu, rheoli a gwerthfawrogi gweithlu’r Bwrdd Iechyd a’i holl asedau ac adnoddau eraill er mwyn cefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Bwrdd ar draws yr ardaloedd;
- Roedd gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ysbyty yng ngogledd Sir Didnbych yn ffitio i fewn gyda’r blaenoriaethau strategol uchod, ac roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni’r cynllun, er bod y cwmpas wedi ei ehangu yn dilyn ymgynghori ac er gwaetha’r premiwm o ran cost oedd ynghlwm â safle Ysbyty Frenhinol Alexandra;
- Byddai’r datblygiad ar safle Ysbyty Frenhinol Alexandra ac roedd ceisiadau diweddar am leoli Uned Mân Anafiadau ar y safle yn cael eu hystyried;
- Byddai gan yr ysbyty newydd welyau cleifion mewnol ac ardal ddiagnosteg o leiaf;
- Y camau nesaf fyddai adolygu canlyniadau'r ymarfer cwmpas a’r cynllun, byddai hyn yn cynnwys ystyriaeth unigol a dadansoddiad o’r gwasanaethau a awgrymwyd fel rhai posib i fod ar y safle.  Unwaith byddai penderfyniad wedi ei wneud o ba wasanaethau fydd ar y safle byddai cynlluniau manwl ar gyfer lleoli’r gwasanaethau hynny yn cael eu gwneud cyn i’r Achos Busnes Amlinellol gael ei gytuno a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn ei gymeradwyo.

Wrth ymateb i’r cyflwyniad bu i aelodau’r Pwyllgor:

- fynegi pryderon ar gynnydd araf y prosiect, yn arbennig o ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod arian wedi ei roi o’r neilltu ar gyfer y prosiect;
- mynegi pryder bod y Bwrdd Iechyd i'w gweld yn ceisio lleoli gormod o wasanaethau gwahanol ar safle cymharol fychan Ysbyty Frenhinol Alexandra;
- pwysleisio bod Uned Mân Anafiadau yn angenrheidiol ar gyfer ardal gyda dwysedd poblogaeth fel gogledd Sir Ddinbych, poblogaeth sy’n cynyddu’n sylweddol yn ystod tymor twristiaid;
- pwysleisiwyd bod gwelyau cleifion mewnol yn angenrheidiol yn yr ardal er mwyn lleihau’r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd ac ysbytai cymunedol yn yr ardal;
- awgrymwyd y posibilrwydd o gynnal rhai clinigau a llawdriniaethau clinigol bychain yn y Clarence Medial Practice, gan fod ganddo theatr bwrpasol ac ystafelloedd clinigol nad oedd i’w gweld yn cael eu defnyddio’n llawn;
- pwysleisio’r angen am leoli ysbyty gymuned gyda chanolfan gysylltiedig ar safle Ysbyty Frenhinol Alexandra, fodd bynnag buont yn cwestiynu'r angen i sefydlu amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl yno;

- teimlo bod y Bwrdd Iechyd, drwy aros gyda safle Ysbyty Frenhinol Alexandra, wedi hepgor y potensial i wireddu derbyniad cyfalaf sylweddol, a allai fod wedi ei ail-fuddsoddi mewn ysbyty newydd sbon pe byddai'r hen ysbyty wedi ei werthu;

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd swyddogion BIPBC:-

- eu bod wedi edrych ddwywaith, yn 2012 a 2015, ar safleoedd posib i ddatblygu ysbyty cymuned ar gyfer gogledd sir Ddinbych. Er y cyfyngiadau, yr unig safle addas oedd wedi cyflwyno ei hun oedd Ysbyty Frenhinol Alexandra. Waeth be fo cyfyngiadau adeilad rhestredig, ni fyddai'n rhwystro'r safle rhag cael ysbyty modern, sy'n addas i alw trigolion, gan y byddai cynllunwyr yn gweithio o amgylch unrhyw rwystrau wedi eu creu gan yr 'hen' adeilad;
- pe byddai gwasanaethau yn cael eu had-leoli i'r safle newydd, byddai staff yn symud gyda'r gwasanaeth;
- roedd rhai elfennau o wasanaethau iechyd meddwl eisoes yn cael eu cyflawni o Ysbyty Frenhinol Alexandra e.e. gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Byddai galw lleol am wasanaeth yn ffactor wrth benderfynu ar ba wasanaethau i'w lleoli ar y safle;
- Byddai technoleg fodern hefyd yn cael ei ystyried wrth benderfynu pa wasanaethau fyddai angen eu lleoli ar safle ysbyty gogledd Sir Ddinbych;
- roedd achos cryf yn cael ei gyflwyno ar fanteision cael Uned Mân Anafiadau ar safle ysbyty cymuned newydd gogledd Sir Ddinbych, a hefyd o bosib, ganolfan i ddelio gydag anhwylderau bychain, gan y gallai hyn leihau'r pwysau ar yr ysbyty rhanbarthol a'i gynorthwyo i ganolbwyntio ar ofal heb ei drefnu;
- roedd angen gwir drafodaeth ar fanteision lleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a gwasanaethau plant a theuluoedd perthnasol eraill yn yr ysbyty newydd. Roedd trafodaethau cychwynnol eisoes wedi cychwyn ar hyn o fewn yr awdurdod lleol;
- beth bynnag fyddai cost cynllun terfynol yr ysbyty newydd, byddai angen iddo fod yn realistig. Mewn ymateb i awgrym gan y Pwyllgor, bydd y swyddogion yn mynd ati i holi os gallai Cadw ddarparu cyllid ar gyfer gwaith adnewyddu e.e. oherwydd statws cofrestredig yr adeilad;
- nid oedd cyfathrebu gyda thrigolion a budd-ddeiliaid yn y gorffennol wedi bod yn foddhaol, fodd bynnag roedd hyn yn gwella bellach;
- Roedd gofynion Iaith Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan hanfodol o gynllunio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol;
- Byddai adnoddau parcio yn cael eu ffactora i mewn i'r prosiect ar y cam cynllunio manwl;
- Roedd anghenion twf cyffredinol y boblogaeth a'r cynllun datblygu lleol a'r pwysau ar y sector gofal sylfaenol yn destun trafod rheolaidd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod Cynllunio Lleol;
- Ni fyddai'n ymarferol ail-agor rhai o'r wardiau sydd wedi eu cau yn Ysbyty Frenhinol Alexandra yn y cyfamser gan bod risgiau a nodwyd o safbwynt deddfwriaeth Diogelwch Tan yn dal yn bresennol;
- Roedd yn rhy gynnar ar hyn o bryd i benderfynu pryd byddai'r Achos Busnes Amlinellol yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan nad oedd cwmpas a maint y prosiect terfynol wedi eu cytuno eto. Fodd bynnag unwaith y byddai'r Achos Busnes Amlinellol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru dylent ei

gymeradwyo o fewn 2 – 3 mis.  Byddai gwaith gwirioneddol yn cychwyn ar y prosiect wedi hynny.

Cyn cau'r drafodaeth ategodd swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod ymrwymiad hir dymor gan y Bwrdd i ddod a darpariaeth cleifion mewnol i ardal gogledd Sir Ddinbych a'u bod yn bwriadu cyflawni hynny.  Er mwyn darparu prosiect hir dymor cynaliadwy roedd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar gyfuno darparu hynny gyda darpariaeth gwasanaethau cymunedol eraill.  Cytunodd swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i friffio aelodau ar gynnydd y prosiect.

Diolchodd y Cadeirydd iddynt am y cyflwyniad ac am ateb cwestiynau Aelodau a:-

***PHENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn:*

*(a) derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod*
*(b) cytuno ac yn gwahodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Gorffennaf, 2016 i ddiweddaru Aelodau ar gynnydd prosiect Ysbyty Gogledd Sir Ddinbych.*

*Gofynnodd y Cadeirydd pe bai modd anfon crynodeb o'r prif bwyntiau uchod at bob Cynghorydd Sir er gwybodaeth.*

## 6 DIOGELU OEDOLION DIAMDDIFFYN

Roedd copi o adroddiad gan Gydlynydd Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PC) wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yr adroddiad gan nodi ei fod yn cael ei gyflwyno ar gais yr Aelodau, fel dilyniant i'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2014/15 yr oedd y Pwyllgor wedi ei ystyried ym mis Tachwedd, 2015, gan fod Aelodau eisiau sicrhad ynghylch rheoli'r risg i unigolion a oedd wedi eu clustnodi fel bod mewn peryg o gael eu cam-drin.  Cynghorodd:-

- bod tua 1,300 gwely gofal cartref ar draws Sir Ddinbych;
- bod 73 atgyfeiriad o gam-drin wedi eu cwblhau yn 2014/15; roedd 56 o'r atgyfeiriadau hyn yn honni bod y cam-drin wedi digwydd o fewn cartref gofal neu gartref preswyl neu yng nghartref yr unigolyn ei hun, ac ohonynt honnwyd bod 43 wedi digwydd o fewn cartref preswyl neu gartref nyrsio;
- manylion sut roedd y risg yn cael ei reoli o safbwynt yr unigolion a restrir yn yr adroddiad;
- bod erlyniadau troseddol yn y math yma o achosion yn brin, dim ond un fu yn ystod 2014/15 – mewn rhai achosion nid oedd yr unigolyn neu'r teulu eisiau dwyn cyhuddiad unwaith roedd y risg wedi ei ddileu;
- tra bo'r awdurdod lleol yn delio gydag atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, nid oedd yr holl atgyfeiriadau'n ymwneud â staff gofal. Roedd astudiaeth achos yn yr adroddiad yn amlinellu sut bod un atgyfeiriad yn erbyn aelod o staff y Gwasanaeth Iechyd, a gwnaed honiadau eraill yn erbyn aelodau o'r teulu neu ffrindiau;

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Rheolwr Gwasanaeth:  Gwasanaethau Arbenigol bod:-

- y Gwasanaeth Iechyd yn gyfrifol am ddarparu matresi pwysau, ac roedd yn cynyddu'r nifer o fatresi yr oedd yn ei archebu;
- roedd perchnogion cartrefi gofal ar y cyfan yn cydweithio gydag ymholiadau atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac yn cydymffurfio gydag unrhyw argymhellion perthnasol, oherwydd byddai rhestru eu cartref o dan 'bryderon cynyddol' yn gwneud niwed i'w busnes;
- roedd tua dau gartref gofal o dan 'bryderon cynyddol' ar unrhyw adeg fel arfer.  Ni fyddai'r Cyngor yn atgyfeirio unrhyw breswylwyr newydd i'r cartrefi tra bod y cartrefi hynny o dan y rhestr 'pryderon cynyddol'.
- roedd honiadau o natur rywiol yn eithaf anodd i ymchwilio iddynt, gallent amrywio o fod yn honiadau bychan i rai difrifol iawn;
- dylid adrodd am unrhyw honiadau i'r Cyngor, hyd yn oed os nad oedd yr unigolyn eisiau mynd a'r ymchwiliad ymlaen, gan y byddai hyn o gymorth i'r Cyngor adnabod meysydd o bryder neu batrymau o ymddygiad cyn iddynt gynyddu;
- os yw'r cam-drin honedig yn digwydd o fewn lleoliad teulu, byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser yn hysbysu'r Heddlu byddai i fyny i'r unigolyn, os oedd ganddi hi/ef y gallu meddyliol, neu aelod o'r teulu i gytuno os oeddynt am fynd ymlaen ag ymchwiliad troseddol ac / neu i ddwyn cyhuddiad. Mewn achosion o'r fath bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud trefniadau i gadw'r unigolyn agored i niwed allan o niwed.
- roedd recriwtio nyrsys cymwys yn broblem benodol i'r gwasanaethau iechyd, a pherchnogion cartrefi nyrsio ar hyn o bryd.
- roedd yr adroddiad yn dilyn yr adolygiad cenedlaethol o ofal cartref ar fin cael ei gyhoeddi.  Mae'r adroddiad hwn yn debygol o amlygu'r problemau sydd wedi eu cael gyda galwadau gofal 15 munud.

Gan gymryd poblogaeth y sir, a'r ffaith bod gan y sir broffil demograffeg sy'n heneiddio i ystyriaeth, roedd aelodau yn teimlo bod angen gwneud mwy o waith i amlygu i drigolion bwysigrwydd paratoi ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol, ee, ysgrifennu dogfennau Atwrneiaeth, ysgrifennu ewyllys ayb.

Diolchodd Aelodau i swyddogion am adroddiad llawn gwybodaeth a gofynnwyd am gynnwys y lefel o fanylder o fewn yr adroddiad fel atodiad i Adroddiadau Blynyddol Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn y dyfodol.  Yna:-

***PENDERFYNWYD –*** *fod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, yn amodol ar y sylwadau uchod yn: -*

*(a) derbyn yr adroddiad a chydnabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant; ac*
*(b) yn cytuno y dylai adroddiadau blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych gynnwys astudiaethau achos a dadansoddiad data manwl, fel sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad cyfredol, fel atodiad i'r adroddiad.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled 'ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

14 Ebrill, 2016:-

Atgoffwyd y Pwyllgor eu bod wedi cytuno i estyn gwahoddiad i'r cyfarfod i'r Cynghorwyr S.A. Davies, a T.R. Hughes i ymuno ag Aelodau'r Pwyllgor ar ymweliad i'r lleoliadau canlynol yn y Rhyl ar ôl y cyfarfod:-

- Harbwr y Rhyl, Pont y Ddraig a Harbour Cafe.
- Gerddi Heulwen.
- Datblygiad y Promenâd
- Datblygiad Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Cyf
- Safle ar gyfer y Premier Inn newydd
- Datblygiad Scarborough.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhawyd bod ymweliad safle swyddogol a thaith o amgylch cyfadeilad newydd Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi ei drefnu ar gyfer yr holl Gynghorwyr Sir ar ddyddiad arall

26 Mai 2016:-

Eglurodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn cwrdd ar 3 Mawrth, 2016 pan fyddent yn ystyried nifer o geisiadau a dderbyniwyd gan Aelodau am eitemau posib ar gyfer cyfarfodydd amrywiol. Gwahoddwyd Aelodau i gwblhau a chyflwyno ffurflenni cynnig Aelodau, o safbwynt eitemau yr hoffent eu hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cydlynydd Archwilio i Aelodau gwblhau a chyflwyno'r Ffurflenni Holiadur Hunan Werthuso oedd wedi eu cylchredeg yn ddiweddar. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cwblhau'r ffurflenni gan y byddai'r Cyngor yn cael asesiad corfforaethol yn hwyrach yn y flwyddyn.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd adroddiadau gan gynrychiolwyr Pwyllgor.

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.55 a.m.